

The Nicene Creed

Credaf yn un Duw, Tad Hollalluog,
gwneuthurwr nef a daear
a phopeth gweledig ac anweledig.
Ac yn un Arglwydd Iesu Grist,
unig-anedig Fab Duw,
wedi ei genhedlu o'r Tad cyn yr holl oesoedd.
Duw o Dduw, llewych o lewych,
gwir Dduw o wir Dduw,
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,
yn un hanfod a'r Tad,
yr Hwn y gwnaed popeth drwyddo;
yr Hwn, erom ni ddynion ac er ein hiachawdwriaeth
a ddaeth i lawr o'r nefoedd,

*ac a gnawdolwyd trwy'r Ysbryd Glân o Fair Forwyn,
ac a ddaeth yn ddyn.*

Croeshoeliwyd ef hefyd drosom ni dan Pontius Pilat,
dioddefodd, ac fe'i claddwyd.
Ac atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau,
ac esgynnodd i'r nef, ac eistedd ar ddeheulaw'r Tad;
a daw ef drachefn mewn gogoniant
i farnu'r byw a'r meirw,
a diwedd ni bydd ar ei deyrnas.
A chredaf hefyd yn yr Ysbryd Glân,
yr Arglwydd a'r Bywiawdwr,
sy'n deillio o'r Tad a'r Mab,
yr Hwn gyda'r Tad a'r Mab
a gydaddolir ac a gydogoneddir,
ac a lefarodd drwy'r proffwydi.
Ac yn un Eglwys lân, gatholig ac apostolig.
Addefaf un bedydd er maddeuant pechodau.
A disgwyliaf atgyfodiad y meirw
a bywyd y byd sydd i ddyfod.
Amen.

PRIEST'S HELP SHEET FOR MASS IN WELSH

Yn enw'r Tad a'r Mab ✠ a'r Ysbryd Glân.
Amen.

Initial Greeting

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

A chyda thithau

Or:

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw,
a chymdeithas yr Ysbryd Glân a fo gydi chwi oll.

A chyda thithau.

Or:

Gras a thangnefedd oddi wrth Dduw Dad
a'n Harglwydd Iesu Grist.

Bendigedig fo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist.

Invitation to Penitential Act

Frodyr a chwiorydd,
gadewch i ni gydnabod ein pechodau gerbron Duw,
er mwyn bod yn gymwys i weinyddu'r dirgeleddau santaid.

Dialogue Penitential Act

Arglwydd, trugarha wrthym, oblegid i ni bechu yn dy
erbyn.

Arglwydd, trugarha wrthym.

Arglwydd, dangos i ni dy drugaredd a'th gariad.

A dyro i ni dy iachawdwriaeth.

The Absolution

Bydded i Dduw Hollalluog drugarhau wrthym,
a maddau ein pechodau,
a'n harwain i'r bywyd tragwyddol

“I Confess”

Cyffesaf i Dduw Hollalluog

ac i chwithau fy mrodyr a’ m chwiorydd,
fy mod wedi pechu’n ddirfawr
ar feddwl, gair a gweithred, ac o esgeulustod,

And, striking their breast, they say:

drwy fy mai, drwy fy mai, drwy fy nirfawr fai;

Then they continue:

**Gan hynny, ’rwy’n erfyn ar Fair Fendigaid y Fythol Forwyn,
ar yr holl Angylion a’r Saint,
ac arnoch chwithau, fy mrodyr a’ m chwiorydd,
i weddio drosod ar yr Arglwydd ein Duw.**

Lord, Have Mercy

**Arglwydd, trugarha wrthym.
Crist, trugarha wrthym.
Arglwydd, trugarha wrthym.**

<p>Bydded i Dduw Hollalluog drugarhau wrthym, a maddau ein pechodau, a’n harwain i’r bywyd tragwyddol</p>
--

Gloria

Gogoniant yn y goruchaf i Dduw
ac ar y ddaear tangnefedd i ddyinion o ewyllys da,
Moliannwn di, bendithiwn di,
addolwn di, gogoneddwn di,
diolchwn i ti am dy fawr ogoniant,
Arglwydd Dduw, frenin nefol,
Duw Dad Hollalluog.

Arglwydd Iesu Grist, yr unig-anedig Fab.
Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad,
tydi sy’n dwyn ymaith bechodau’r byd, trugarha wrthym;
tydi sy’n dwyn ymaith bechodau’r byd, derbyn ein gweddi;
tydi sy’n eistedd ar ddeheulaw’r Tad, trugarha wrthym.

Oblegid ti yn unig sy’n sanctaidd,
ti yn unig yw yr Arglwydd,
ti yn unig, Iesu Grist, sy’n oruchaf,
gyda’r Ysbryd Glân yng ngogoniant Duw Dad. Amen

The Collect [omit bracketed if Jesus’ name comes last]:

Gweddiwn...

[Trwy Iesu Grist, dy Fab, ein Harglwydd]
sydd gyda thi un undod yr Ysbryd Glân yn Dduw byw,
a’i frenhiniaeth yn parhau yn oes oesoedd. *Amen.*

Or when the prayer is addressed to Christ:

[Tydi] sydd gyda’r Tad un undod yr Ysbryd Glân yn Dduw byw,
a’i frenhiniaeth yn parhau y noes oesoedd. *Amen.*

After the Readings:

Gogoniant i Dduw am Ei Air
Diolch i ti, O Dduw

Before and after the Gospel:

Yr Arglwydd a fo gyda chwi
A chyda thithau

Darlleniad o’r Efengyl sanctaidd yn ôl [Enw]
Gogoniant i ti, O Arglwydd

...
Gogoniant i Dduw am ei Air
Moliant i ti, O Grist

Closing Prayer, Blessing and Dismissal

Gweddiwn... Trwy Grist, ein Harglwydd. Amen.
[or ...Iesu] Sydd yn byw an yn teyrnasu yn oes oesoedd. Amen.

Yr Arglwydd a fo gyda chwi
A chyda thithau

**Bendith Duw Hollalluog a fo gyda chwi,
y Tad a’r Mab ✠ a’r Ysbryd Glân**

Awn ymaith mewn tangnefedd. Diolch i ti, O Dduw.